GLASTIR

Cwestiynau Cyffredin

Cwestiynau Cyffredin

CYNNWYS **Tudalen**

1	PAM NEWID	4
2	CYLLIDEB GLASTIR A THALIADAU I FFERMWYR	8
3	DYFODOL Y CYNLLUNIAU PRESENNOL	11
4	GLASTIR – YR ELFEN CYMRU GYFAN	13
5	GLASTIR - YR ELFEN WEDI'I THARGEDU	17
6	GLASTIR - ELFEN ACRES	19
7	GLASTIR - YR ELFEN TIR COMIN	21
8	COETIR	25
9	FFERMIO ORGANIG	29
10	CEISIADAU AC AMODAU YMUNO Â GLASTIR	31
11	TREFNIADAU PONTIO	38
12	MONITRO GLASTIR, TORRI'R RHEOLAU A CHOSBAU	45

13 MATERION AMRYWIOL 46

1	PAM NEWID	
	Cwestiwn	**Ateb**
1.1	**Pam mae Llywodraeth y Cynulliad yn newid yr holl gynlluniau hyn nawr?**	Cafodd y cynlluniau presennol i gyd eu creu i ateb problemau gwahanol. Mae bygythiadau a chyfleoedd newydd a gwahanol yn ein hwynebu erbyn hyn ac mae'n bwysig bod cynlluniau heddiw'n gallu helpu ffermwyr i ymateb i ofynion y dyfodol. Mae'r cynllun newydd yn cefnogi ymrwymiadau amgylcheddol Llywodraeth y Cynulliad, a hefyd ein strategaethau newydd ar fwyd a ffermio. Mae'n bwysig cofio hefyd ei fod yn ymateb i Archwiliad Iechyd yr UE, y cytunodd y Cyngor Ewropeaidd arno fis Tachwedd diwethaf, sy'n delio â chyfraniad ffermwyr at arafu'r newid yn yr hinsawdd, gwella ansawdd dŵr a chynnal a chyfoethogi bioamrywiaeth. Nid yw'r Comisiwn Ewropeaidd wedi cymeradwyo Glastir (ein cynllun rheoli tir) eto ac mae'n rhaid i holl wledydd yr Undeb Ewropeaidd wynebu'r sialensau hyn yn eu Cynlluniau Datblygu Gwledig o 2014. Y cynllun newydd (Glastir) yw'r cam cyntaf ar gyfer rhoi'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr ar waith, sy'n ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth y Cynulliad ofalu bod pob llyn ac afon yn bodloni safon arbennig erbyn 2015;
1.2	**Beth sy'n bod â'r cynlluniau presennol - maen nhw'n boblogaidd ac i bob golwg yn effeithiol, felly**	Nid yw'r penderfyniad yn feirniadaeth o'r cynlluniau presennol ond yn ymateb i'r sialensiau sydd ac a fydd yn wynebu ffermwyr a'r gymdeithas ehangach.

	pam newid?	Mae Agenda Archwiliad Iechyd y PAC, y cytunodd y Cyngor Ewropeaidd arno, yn gosod yn glir y problemau y mae'n rhaid i'n Cynllun Datblygu Gwledig gyfrannu at eu datrys. Mae'r problemau hynny'n cynnwys y newid yn yr hinsawdd, dal carbon, ansawdd dŵr a bioamrywiaeth. Ni chafodd y cynlluniau presennol eu creu i fynd i'r afael â'r pynciau hyn ac o dan reolau'r CE, nid oes modd eu haddasu iddyn nhw allu gwneud hynny o fewn y gyllideb sydd ar gael.
1.3	**Pam Glastir?** **Pam mae Glastir wedi'i drefnu fel ag y mae?**	Glastir sy'n cynnig y ffordd orau i wireddu amcanion amgylcheddol Llywodraeth y Cynulliad a'r UE tra'n cynnig cyfleoedd amaeth-amgylcheddol i fwy o ffermwyr gyda chyllideb 'wastad'.
1.4	**Onid diben y cynlluniau hyn yw helpu ffermwyr - pam ddylech chi ystyried y materion hyn?**	Mae cynlluniau Echel 2 yn talu ffermwyr i ddarparu pecyn o 'nwyddau' amgylcheddol. Mae'r taliadau hyn yn helpu ffermwyr i greu buddiannau amgylcheddol. Mae elfen gymdeithasol ac economaidd i Tir Mynydd gan ei fod yn gymhorthdal incwm, ond yn ei adolygiad o'r Ardaloedd Llai Ffafriol, cyhoeddodd y Comisiwn na chaiff ystyriaethau sosio-economaidd fod yn sail i unrhyw gymhorthdal.
1.5	**A fydd Glastir yn effeithio ar y Taliad Sengl?**	Na fydd.
1.6	**Pam dylai ffermwyr gael eu gorfodi i ddelio â'r newid yn yr hinsawdd a rheoli dŵr?**	Mater o ddewis yw ymuno â Glastir. Nid yw'n orfodol. Mae dyletswydd ar Lywodraeth y Cynulliad i ddefnyddio arian y trethdalwr yn gyfrifol ac yn ddoeth. Mae'n bwysig ein bod yn cael y gorau o bob punt a wariwn a'n bod yn rhoi blaenoriaeth i'r meysydd hynny sy'n rhoi inni'r manteision mwyaf.

1.7	**Beth arall ydych chi'n ei wneud i daclo'r newid yn yr hinsawdd?**	Mae Grŵp Defnydd Tir a Newid Hinsawdd wedi'i sefydlu i feddwl sut y gall ffermwyr a defnyddwyr tir addasu i'r newid yn yr hinsawdd. Bydd yn edrych ar yr effeithiau, ar sut i ymateb i'r cyfleoedd a ddaw i ran ffermydd a busnesau coedwigo ac ar y bygythiadau. Amcan cyntaf y Grŵp yw llunio adroddiad trafod yn rhestru'r camau newydd fyddai'n helpu i gyrraedd y targed o ostyngiad o 3% yn yr allyriadau nwyon tŷ gwydr ac ystyried sut y gallai amaethyddiaeth Cymru weithio at fod yn garbon niwtral erbyn 2020. Hefyd, cafodd Rhaglen Ddatblygu Newid Hinsawdd ei lansio yn 2009 fel rhan o Cyswllt Ffermio. Bydd yn sicrhau bod yr wybodaeth ddiweddaraf ar gael i reolwyr tir am ddulliau a thechnegau newydd i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd a sut i fanteisio ar yr arbedion a'r cyfleoedd busnes newydd y maen nhw'n eu cynnig.
1.8	**Beth yw pwynt hyn - oni fyddwch chi'n newid popeth eto mewn blwyddyn neu ddwy?** **Pryd daw'r cynllun Glastir i ben?**	Un o amcanion y newid oedd rhoi cynllun fyddai'n rhoi sefydlogrwydd tymor hir i ffermwyr. Er mwyn gwireddu'r amcanion newid hinsawdd, rheoli dŵr a bioamrywiaeth, mae'n rhaid inni ymrwymo i dalu fermwyr i weithredu dros y tymor hir gan na ddaw llawer o'r canlyniadau i'r amlwg am nifer o flynyddoedd. Rydym wedi cyhoeddi'r bwriad i gadw Glastir tan 2020 a thu hwnt, gan roi sefydlogrwydd i ffermwyr yn ogystal â manteision amgylcheddol.
1.9	**Os na fydd yn denu llawer o aelodau, a gaiff Glastir ei newid?**	Na chaiff; unwaith y bydd y Comisiwn wedi'i gymeradwyo, nid oes gennym fwriad i'w newid yn fawr cyn 2020. Ond efallai y bydd yn rhaid gwneud mân-newidiadau.
1.10	**Sut ydych chi'n gwybod y gwnaiff eich cynigion wahaniaeth i'r pethau rydych am eu newid?**	Mae'n wir ei bod hi wedi bod yn anodd profi yn y gorffennol bod y cynlluniau presennol wedi arwain at welliannau amlwg ac agored. Yn wir, dyma un o'r materion godwyd yn adolygiad Swyddfa Archwilio

		Cymru o Tir Gofal. Un o broblemau'r gorffennol oedd mai rhywbeth yr oedd pobl yn digwydd meddwl amdano wedi cychwyn y cynllun oedd monitro, yn hytrach na'i wneud yn rhan o'r cynllun ei hun. Ar gyfer Glastir, byddwn yn gweithio o'r dechrau gydag arbenigwyr ym meysydd ffermio a chefn gwlad i sicrhau bod pawb yn fodlon bod y llinynnau mesur amgylcheddol a'n dulliau o gasglu data a monitro'r cynllun yn addas inni allu mesur y canlyniadau. Bydd hyn yn dangos a fyddwn wedi cael gwerth ein harian dros y tymor canolig i hir.
1.11	**Beth mae 'gwasanaethau ecosystemau' yn ei olygu?**	Y buddiannau y mae ecosystem yn eu rhoi i bobl yw 'gwasanaethau'r ecosystem'. Cymuned o blanhigion, anifeiliaid a micro-organebau, ynghyd â'r amgylchedd, yw ecosystem, sy'n gweithio gyda'i gilydd fel uned. Mae hynny'n cynnwys gwasanaethau darparu fel bwyd a dŵr; gwasanaethau rheoli fel rheoli llifogydd, allyriadau carbon a chlefydau; gwasanaethau diwylliannol fel manteision ysbrydol a diwylliannol a hamdden; a gwasanaethau ategol fel ailgylchu maethynnau sy'n cynnal yr amodau ar gyfer bywyd ar y Ddaear.

CYLLIDEB GLASTIR A THALIADAU I FFERMWYR		
	Cwestiwn	**Ateb**
2.1	**A fydd ffermwyr ar eu colled o achos y newidiadau hyn?** **A fydd hi'n costio gormod i ffermwyr ymuno â'r cynllun Glastir?**	Ni fydd y gwariant ar daliadau yn newid o dan Glastir ac ni fydd y diwydiant yn colli allan oherwydd y newidiadau hyn. Rhagwelir y bydd rhyw £89m yn cael ei wario ar Echel 2 y Cynllun Datblygu Gwledig yn 2012 ac yn 2013 a bydd hyn yn parhau. Ni allwn warantu na wnaiff ffermwyr unigol weld eu grant ar ddiwedd y cyfnod pontio yn newid – bydd yn dibynnu ar hyd a lled y buddiannau amgylcheddol y byddan nhw'n eu cynnig. Mae manylion Glastir wrthi'n cael eu datblygu gyda'r diwydiant ffermio a grwpiau eraill sydd â diddordeb, ac nid oes modd cymharu'n union yr hen gynlluniau â'r cynllun newydd. Fodd bynnag, mae'r modelau'n dangos y bydd ffermwyr yn cael mwy o daliad o dan yr elfen Cymru Gyfan Glastir nag o dan y cynllun Tir Mynydd presennol. Mae costau'r Cynllun hwn hefyd yn cael eu pennu ar sail yr incwm a gollir a'r costau a ysgwyddir gan ffermwyr er mwyn sicrhau na fyddant 'ar eu colled' o wneud y gwaith. Mae'r cyfrifiadau'n debyg i'r rheini gafodd eu gwneud ar gyfer cynlluniau amaeth-amgylcheddol eraill fel Tir Gofal a Tir Cynnal. Yn y pen draw, penderfyniad busnes i bob ffermwr fydd p'un ai i ymuno â Glastir neu beidio.
2.2	**Mae'r cynllun newydd (Glastir) i'w weld yn cynnig llai o arian i ffermwyr na'r**	Nid oes modd gwneud cymariaethau uniongyrchol na rhagweld effaith y cynllun newydd ar ffermydd unigol.

	cynlluniau presennol - ydy hyn yn deg?	Fodd bynnag, mae taliadau'r cynllun newydd yn uwch na thaliadau'r cynllun Tir Mynydd. Mae taliadau'r elfen Cymru gyfan yn is na thaliadau Tir Gofal, ond bydd elfen wedi'i thargedu i'r cynllun a bydd taliadau'r elfen honno'n uwch. Mae costau Glastir wedi'u dilysu gan gorff annibynnol (ADAS) i wneud yn siwr eu bod yn adlewyrchu cost y gwaith a wneir a'r incwm a gollir, fel na fydd ffermwyr ar eu colled o gymryd rhan yn Glastir.
2.3	**Faint bydd rhai ffermwyr yn debygol o'i ennill neu ei golli?**	Mae'n amhosibl dweud faint y bydd grantiau'n debygol o newid gan y bydd y cyfan yn dibynnu ar sefyllfa'r ffermwr dan sylw. Er y bydd rhai ar eu hennill a rhai ar eu colled fel gydag unrhyw gynllun newydd, bydd ymgeiswyr yn elwa o gael llai o waith papur, proses ymgeisio well ac ar ôl sefydlu'r cynllun, o gael sefydlogrwydd tymor hir. Yn 2012 a 2013, bydd trefniadau pontio ar gael ar gyfer aelodau Tir Gofal a Tir Cynnal, i roi amser iddyn nhw gynllunio ymlaen os bydd eu hincwm o dan y cynllun newydd yn cwympo.
2.4	**Pam gwario'r arian hwn o gwbl? Onid yw safonau 'trawsgydymffurfio' yr UE yn golygu bod ffermwyr yn gorfod gofalu am eu tir p'run bynnag?**	Mae'r safonau Trawsgydymffurfio'n ymwneud â'r safonau y mae ffermwyr sy'n derbyn y Taliad Sengl (SPS) yn gorfod eu bodloni. Mae safonau Glastir dipyn llymach na'r safonau Trawsgydymffurfio. Mae'n deg felly bod Llywodraeth y Cynulliad yn digolledu ffermwyr am ddarparu'r nwyddau cyhoeddus hyn.

2.5	**Pryd bydd ffermwyr yn cael eu taliad cyntaf a sut bydd y broses talu'n gweithio?**	Nod Llywodraeth y Cynulliad yw talu'r rhandaliadau cyntaf yn haf 2012. Caiff yr ail randaliad ei dalu ym mis Rhagfyr 2012. Caiff y cyfan ei dalu trwy BACS.
2.6	**Pa mor aml y bydd cyflenwyr yn cael eu talu wedi hynny?**	Bob blwyddyn fwy na thebyg - bob mis Rhagfyr.
2.7	**A fydd taliad mwyaf/lleiaf ar gyfer elfen Cymru gyfan ac elfen wedi'i thargedu y cynllun?**	Na fydd, ond rhaid bod gan y ffermwr dair hectar o dir, felly y gyfradd dalu x 3 fydd y taliad lleiaf posibl.
2.8	**Beth fydd y taliad cyfartalog o dan yr elfen Cymru gyfan a'r elfen wedi'i thargedu?**	Bydd taliad penodol yr hectar ar gyfer y ddwy elfen. Does dim taliad 'cyfartalog'. Yr hyn sy'n amrywio yw faint o waith y bydd y cyflenwr yn gorfod ei wneud er mwyn cael taliad. Ar gyfer yr elfen Cymru Gyfan, bydd tâl safonol sefydlog o £28 yr hectar y tu allan i'r ALFf a thua £33 yn yr ALFf. Bydd taliadau'r elfen wedi'i thargedu yn dibynnu ar yr opsiynau a fydd wedi'u dewis. Ond mae gwaith modelu'n awgrymu y telir ar gyfartaledd tua £65 yr hectar ond dim ond ar gyfer y tir y bydd yr elfen hon yn effeithio arno (gallai'r elfen wedi'i thargedu fod yn rhan o fferm yn unig).
2.9	**Beth fydd yn digwydd i gontract Glastir os bydd ffermwr yn penderfynu gwerthu ei dir hanner ffordd trwy'r cytundeb?**	Bydd y ffermwr yn ymrwymo i gadw rheolaeth lwyr ar y tir am 5 mlynedd a bydd yn rhaid iddo felly ad-dalu'r arian a chael ei gosbi os na fydd y deiliad newydd yn barod i gadw at amodau Glastir ar y tir sy'n cael ei werthu a/neu os na fydd y tir sy'n cael ei werthu neu sy'n aros gyda'r ymrwymiad gwreiddiol yn bodloni amodau Glastir.

3	DYFODOL Y CYNLLUNIAU PRESENNOL	
	Cwestiwn	**Ateb**
3.1	**Beth sy'n mynd i ddigwydd i'r cynlluniau presennol?**	Bydd pob un o'r cynlluniau presennol yn cau ar 31 Rhagfyr 2013, os na fyddan nhw wedi dod i ben cyn hynny (ac eithrio gweler 11.5). Ni fydd Tir Gofal na Tir Cynnal yn derbyn aelodau newydd ar ôl 8 Mai 2009. Caiff taliad olaf Tir Mynydd ei dalu ym mis Mawrth 2011- bydd wedi'i hawlio ar SAF 2010.
3.2	**Mae'r cynllun Tir Gofal wedi buddsoddi llawer o arian i gynnal cynefinoedd. A aiff hwn nawr yn ofer?**	Bydd dal angen diogelu'r cynefin o dan reolau Asesu Effeithiau Amgylcheddol a thrawsgydymffurfio. Rydym yn disgwyl y gwnaiff llawer o ffermwyr Tir Gofal ymuno â'r cynllun newydd. Mae cadw pob cynefin yn un o amodau gofynnol Glastir. Mae opsiynau hefyd yn yr elfen Cymru Gyfan ar gyfer parhau â'r rhan fwyaf o opsiynau rheoli cynefinoedd Tir Gofal. Bydd llawer o ffermwyr Tir Gofal yn gallu cael taliadau am wneud gwaith ychwanegol ar gynefinoedd fel rhan o elfen wedi'i thargedu Glastir.
3.3	**Beth am y rheini wnaeth gais i ymuno â Tir Cynnal yn 2008?**	Bydd ffermwyr sydd wedi gwneud cais i ymuno â Tir Cynnal ond nad ydynt wedi cael cytundeb eto yn cael ymuno â Glastir ar SAF 2010.
3.4	**Beth os nad yw aelodau'r cynlluniau presennol am ymuno â'r cynllun newydd?**	Maen nhw'n rhydd i wneud fel a fynnan. Bydd eu cytundebau yn dod i ben yn eu priod amser.
3.5	**A fydd y Cynllun Premiwm Tir wedi'i Wella yn parhau?**	Gweler Adran 8 - Coetir
3.6	**A fydd y cynllun Coetiroedd**	

	Gwell i Gymru yn parhau?	Gweler Adran 8 - Coetir.
3.7	**Nid yw Glastir yn cadw Tir Mynydd. A fydd hyn yn golygu y bydd llai o nawdd i ffermwyr mynydd?**	Cynllun iawndal yw Tir Mynydd ond nid oes cysylltiad uniongyrchol rhyngddo â darparu buddiannau cyhoeddus. Mae'r cynllun newydd yn cydnabod rôl arbennig ffermwyr mynydd a ffermydd teuluol wrth ddarparu'r buddiannau hyn, ond bydd hefyd yn targedu'r arian yn well ar gyfer eu darparu. Bydd premiwm o 20% ar ben taliad yr elfen Cymru gyfan i ffermwyr sydd â thir yn yr ALFf. Mae hynny'n cydnabod y problemau ychwanegol y mae'r ffermwyr hynny yn eu hwynebu. Nid nod cynlluniau rheoli tir Echel 2 yw ateb problemau ffermwyr mynydd. Diben y cynllun newydd yw digolledu ffermwyr am gostau'r buddiannau amgylcheddol a thirwedd y maen nhw'n eu darparu. Nid oedd Tir Mynydd yn rhoi manteision amgylcheddol penodol.

4	GLASTIR – YR ELFEN CYMRU GYFAN	
	Cwestiwn	**Ateb**
4.1	**Sut bydd yr elfen Cymru gyfan newydd yn gweithio?**	Bydd ceisiadau am yr elfen Cymru gyfan yn seiliedig ar fap a dewislen gyda ffermwyr yn dewis o blith amrywiaeth o weithgareddau rheoli opsiynol. Bydd y ffermwr yn cael pwyntiau am gyflawni pob opsiwn. Bydd trothwy pwyntiau y bydd yn rhaid i'r ymgeisydd ei gyrraedd cyn cael ymuno â'r cynllun. Bydd y trothwy pwyntiau'n adlewyrchu maint y fferm – mwya'n y byd y fferm, mwya'n y byd o bwyntiau y bydd eu hangen. Bydd y grant yn seiliedig ar daliad safonol yr hectar. Bydd premiwm o 20% ar ben y taliad Cymru gyfan ar gyfer tir yn yr ALFf i adlewyrchu'r anawsterau y mae ffermwyr ar dir ymylol yn eu hwynebu.
4.2	**Pryd bydd y system bwyntiau ar gael i ffermwyr?**	Mae cerdyn sgorio ar-lein, yn disgrifio'r pwyntiau ac yn symleiddio'r broses ymgeisio, eisoes ar wefan Llywodraeth y Cynulliad a bydd yn cael ei amgáu gyda phob pecyn Ymgeisio ym mis Medi 2010.
4.3	**Sut penderfynoch ar 28 fel ffigur?**	Cawsom o ffigur trwy fodelu cyllideb y cynllun, y nifer fyddai'n debygol o ymuno, arwynebedd y tir cysylltiedig ynghyd â'r nifer a ragwelir fyddai'n dewis pob opsiwn.

4.4	**Sut bydd ffermwyr yn rhoi gwybod i Lywodraeth y Cynulliad ba waith fydd wedi'i wneud a pha opsiynau fydd wedi'u dewis?** **A fydd ffermwyr yn cael mapiau?**	Bydd mapio gwaith yn rhan bwysig iawn o'r broses ymgeisio. Bydd y ffermwr yn dangos pa opsiynau y bydd am eu dewis ar gyfer pob parsel o dir ar ffurflen nad yw'n annhebyg i ffurflen SAF. Bydd yn cael map i ddangos lleoliad pob opsiwn ac arwynebedd neu hyd y gwaith ar y map. Bydd yr wybodaeth yn cael ei chrynhoi yn y cyfarfodydd â ffermwyr a fydd yn cael eu cynnal rhwng mis Rhagfyr 2010 a 30 Medi 2011.
4.5	**Os a'i dros y trothwy o bwyntiau sydd eu hangen, a ga' i ddewis llai o opsiynau?**	Cewch.
4.6	**Os na fydda' i am ddewis llai o opsiynau, a ga' i fwy o daliad?**	Na chewch. Y mwyaf fydd yn cael ei dalu o dan yr Elfen Cymru Gyfan fydd nifer yr hectarau x 28 (llawr gwlad) neu tua £33 (ALFf).
4.7	**Erbyn pryd y bydd yn rhaid cynnal y gweithgareddau fydd wedi'u rhestru yng nghontract y ffermwr?**	Taliad blynyddol yw Glastir a'r disgwyl yw y caiff y gwaith ei wneud bob blwyddyn. Dylid cwblhau gwaith cyfalaf yn y ddwy flynedd gyntaf.
4.8	**A fydd gwaith cyfalaf i adfer perthi (gwrychoedd)?**	Mae opsiynau yn y cynllun i blannu perthi newydd neu adfer perthy bylchog. Pwyntiau sy'n cael eu rhoi ar gyfer adfer perthi, i'w cyfrif at drothwy bwyntiau'r elfen Cymru Gyfan yn hytrach na grant cyfalaf ychwanegol.
4.9	**A fydd yn rhaid dangos y perthi (gwrychoedd) ar y ffurflen gais?**	Bydd yn rhaid disgrifio / mapio pob gweithgaredd, i'w casglu yn y cyfarfodydd â ffermwyr.
4.10	**Pam mae dim ond ffermwyr godro fydd yn cael dewis chwistrellu slyri?**	Mae ffermio da byw dwys, yn enwedig godro, yn fwy tebygol o lygru, ac mae angen mynd i'r afael â hynny. Â siarad yn gyffredinol, mae llawer o ffermwyr godro yn cynhyrchu mwy o slyri yn y gaeaf nag sydd ganddynt le i'w gadw. Maen nhw felly'n gorfod ei wasgaru gyda'r perygl y gallai glaw ei olchi oddi ar y tir. Mae'r opsiwn hwn felly yn cael ei neilltuo ar gyfer ffermydd godro. Cedwir golwg arno trwy edrych a oes gan y ffermwr sy'n ceisio am Glastir gwota llaeth a/neu gontract llaeth. Byddai'n anoddach

		rheoli ffermwyr eidion/defaid ac o'r herwydd, byddai'n bryder i'r Comisiwn; er enghraifft gallai ffermwr ddewis yr opsiwn a pheidio â chwistrellu slyri. Bydd ACRES sy'n annog defnyddio adnoddau ynni'n effeithlon yn cynnig grantiau i wahanu dŵr glân a dŵr budr ac rydym yn ystyried ei estyn i gynnwys mesurau gwaredu, efallai gan gynnwys offer chwistrellu slyri i bob ffermwr.
4.11	**Pa gyfran o'r fuches/ddiadell sy'n gorfod bod o frid brodorol i fod yn gymwys ar gyfer yr opsiwn hwn?**	Bydd rhestr lawn o fridiau cymwys yng nghanllawiau'r cynllun. Y cynnig ar hyn o bryd yw talu am yr arwynebedd sydd â da byw sydd ar y 'gofrestr o fridiau brodorol mewn perygl' yn ei bori; hyd at uchafswm o 10ha. 0.5 buwch yr ha (hyd at 5 buwch), 2.5 mamog fagu yr ha (hyd at 25 dafad), 1 merlyn yr ha (hyd at 10 merlen).
4.12	**A fydd Glastir yn cynnig mwy o amddiffyniad/opsiynau mewn cysylltiad â'r amgylchedd hanesyddol na TG?**	Bydd yr Elfen Cymru Gyfan a'r Elfen wedi'i Thargedu gyda'i gilydd yn cynnig fwy neu lai yr un faint o amddiffyniad a rheolaeth ar gyfer nodweddion hanesyddol â Tir Gofal.
4.13	**Sut mae modd cael gwybod ble mae holl adeiladau a safleoedd hanesyddol y daliad?**	Mae gan CADW restr o'r henebion rhestredig a'r Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymreig restrau o'r nodweddion hanesyddol sydd heb eu rhestru. CADW hefyd sy'n gyfrifol am yr wybodaeth am y rhan fwyaf o'r Parciau a'r Gerddi Hanesyddol, er bod gan yr Ymddiriedolaethau beth gwybodaeth. Nid oes cofnod gyfan o adeiladau fferm traddodiadol.

4.14	**Beth fydd 'difrod' i heneb yn ei olygu?**	Mae Trawsgydymffurfio eisoes yn amddiffyn Henebion Rhestredig ac mae Glastir yn ymestyn hyn i amddiffyn pob nodwedd hanesyddol ar y fferm. Mae difrod i nodwedd hanesyddol yn cynnwys UNRHYW un o'r canlynol: • Aflonyddu neu dyrchu'r tir, yn enwedig os eir o dan yr uwchbridd. • Gollwng neu storio deunydd, gan gynnwys storio dros dro. • Codi deunydd, gan gynnwys cerrig, pridd neu isbridd. • Arwyddion gweladwy o erydu (colli neu aflonyddu'r uwchbridd neu'r isbridd) gan dda byw a cherbydau neu waith ffermio arall. • Plannu coed (ac eithrio plannu coed cyfnewid am goed marw tebyg o fewn tir parc). • Gadael i brysgwydd dyfu • Aredig neu ailhau • Dymchwel nodweddion cerrig unigol. Rhaid sicrhau nad oes difrod i unrhyw "Barc Hanesyddol" neu "Ardd Hanesyddol " sydd ar Gofrestr y Parciau a'r Gerddi Hanesyddol. Mae difrod yn golygu UNRHYW un o'r canlynol: • Codi gwaith plannu hanesyddol sydd wedi'i nodi ar y Gofrestr. • Codi neu aflonyddu adeiladau neu nodweddion yn y dirwedd. • Ailfodelu'r dirwedd gan newid y topograffi'n fawr. • Gollwng deunydd.

5	GLASTIR - YR ELFEN WEDI'I THARGEDU	
5.1	**Sut bydd yr elfen wedi'i thargedu'n gweithio?**	Bydd yr elfen hon yn cael ei thargedu yn ôl ardal. Y nod fydd gwireddu amcanion fel: diogelu carbon y pridd, gwella ansawdd dŵr, rheoli cynefinoedd, darparu llwybrau strategol, diogelu rhywogaethau a diogelu'r amgylchedd hanesyddol. Bydd yn gwneud hyn ar lefel y tirlun neu'r dalgylch yn hytrach nac ar lefel y fferm, er mwyn cael y gorau ohoni a chael y canlyniadau gorau. Â siarad yn gyffredinol, defnyddir yr elfen wedi'i thargedu i ddelio â phroblemau rheoli mwy cymhleth. Bydd yn agored i ffermwyr sydd â thir o fewn ardaloedd penodedig. **Bydd yn rhaid i ffermwyr fod yn perthyn i'r elfen Cymru gyfan cyn cael ymuno â'r elfen wedi'i thargedu.** Bydd gofyn i dir comin fod yn perthyn i'r Elfen Tir Comin cyn cael ymuno â'r elfen wedi'i thargedu. Ar y lefel hon, byddwn yn pennu ymlaen llaw beth y bydd angen i'r ffermwr ei wneud, er y bydd lle i drafod â swyddog y prosiect faint yn union y bydd angen i ffermwr unigol ei wneud mewn ardal gydweithredol benodol (bydd gan bob grŵp ei swyddog prosiect ei hun).
5.2	**A fydd cyfnod paratoi hir cyn y byddwn yn cynnig cytundebau o dan yr elfen wedi'i thargedu?**	Na fydd. Ein bwriad yw cychwyn yr elfen wedi'i thargedu cyn gynted â phosibl ar ôl cychwyn yr Elfen Cymru Gyfan 2012/2013. Bydd ymgeiswyr yn cael ticio blwch mynegi diddordeb ar eu SAF 2010.
5.3	**Sut gwnewch chi ddewis ardal i'w thargedu gan yr elfen wedi'i thargedu?**	Byddan nhw'n cael eu dewis yn ôl gallu'r ardaloedd hynny i sicrhau'r canlyniadau uwch y byddwn yn chwilio amdanyn nhw –

		cadw carbon yn y pridd yn well a gwella ansawdd dŵr a bioamrywiaeth.
5.4	**Sawl Ardal Darged fydd yna?**	Bydd hyn yn dibynnu ar faint o arian fydd gennym.
5.5	**A fydd cyfyngiad ar y nifer fydd yn cael ymuno â'r Elfen wedi'i Thargedu?**	Nid oes targedau na chyfyngiadau o ran y nifer sy'n ymuno ag unrhyw elfen Glastir ond mae terfyn i'r gyllideb ac mae'n rhesymol rhagdybio os oes nifer fawr o ymgeiswyr, yna efallai y bydd yn rhaid cyfyngu ar y niferoedd.
5.6	**A fydd grantiau cyfalaf ar gyfer yr Elfen wedi'i Thargedu?**	Bydd.
5.7	**A fydd ffosydd draenio'n cael eu cau i reoli llif dŵr a charbon ac os gwnaiff fy nghymydog hynny, a allai achosi problemau i mi. A allwn ofyn i'r Tribiwnlys Tir Amaethyddol wyrdroi'r weithred?**	Mae'r ddeddf wrthi'n cael ei newid er mwyn diddymu Deddf Draenio Tir 1991. Y pwynt pwysig i'w gofio yw na chaiff y mesurau hyn eu cymryd ond ar ôl i dechnegwyr/arbenigwyr ystyried yr holl effeithiau.

6 GLASTIR - ELFEN ACRES		
6.1	**Beth am gynllun cnydau ynni adnewyddadwy?** **Beth am fiomas?**	Rydym wedi ystyried y dadleuon o blaid ac yn erbyn cynllun cnydau ynni ac rydym wedi penderfynu y byddai'n well defnyddio'r arian prin sydd ar gael i wireddu'r amcanion amgylcheddol ehangach sydd eisoes wedi'u disgrifio. Byddwn yn dal i weithio gyda chadwynau cyflenwi ar gyfer cynlluniau pŵer lleol sy'n cael eu noddi gan Lywodraeth y Cynulliad.
6.2	**A fydd grantiau cyfalaf ar gyfer technolegau ynni adnewyddadwy?**	Yn amodol ar gael cymeradwyaeth yr UE, bydd ffermwyr o dan gontract elfen Cymru Gyfan Glastir yn cael gwneud cais am grant cyfalaf i wella mesurau arbed ynni, casglu dŵr glaw, cynhyrchu sglodion coed, rheoli maethynnau'r pridd yn well a defnyddio technolegau ynni adnewyddadwy i ateb gofynion busnes y fferm. Y Cynllun Lleihau Carbon Amaethyddol (ACRES) fydd hwn. Nid yw'n debygol y bydd grantiau cyfalaf ar gyfer cynhyrchu trydan adnewyddadwy am fod Tâl am gyflenwi trydan i'r grid (FiTs) bellach wedi'i gyflwyno (gweler 6.4). Bydd nawdd ar gael ar gyfer hyd at 40% o'r gwariant cymwys, gan ddibynnu ar yr eitem. Bydd grantiau'n amrywio o leiafswm o £3,000 i uchafswm o £50,000 fesul contract Elfen Cymru Gyfan Glastir. Cewch fwy o fanylion ym mhecyn Ymgeisio Glastir.
6.3	**Pam mae'r nawdd sydd ar gael trwy ACRES wedi'i gyfyngu i gynhyrchu ynni ar gyfer busnes y fferm ac nad oes hawl ei gynhyrchu ar gyfer y tŷ fferm na gwerthu ynni dros ben?**	Daw'r arian hwn trwy'r rhaglen moderneiddio ffermydd sy'n cyfyngu unrhyw fudd i fusnes y fferm. Y gyfraith ar gystadleuaeth sy'n ei gwneud hi'n amhosib gwerthu ynni dros ben i'r grid, gan fod yna fusnesau sefydledig sy'n gwerthu ynni fel hyn a theimlir y byddai rhoi grant i helpu ffermydd

		gynhyrchu ynni yn annheg. Mae gwledydd yr UE wedi gwneud llawer o gyflwyniadau i'r Comisiwn ar y mater hwn gan y bydd ffermydd yn rhwym o gynhyrchu ynni dros ben. Mae'r Comisiwn yn gwrando ond nid yw'n debygol o newid y rheoliadau cyn diwedd cyfnod y Cynllun Datblygu Gwledig hwn (2013). Bydd pwyslais yr elfen hon o'r cynllun yn debygol o newid at ddefnyddio ynni'n effeithlon yn hytrach na chynhyrchu ynni (gweler 6.4).
6.4	**Beth yw'r Tâl am Gyflenwi Ynni i'r Grid (Y Feed-In Tariff - FiTS)?**	Cynllun ar gyfer Prydain gyfan yw hwn a fydd yn cael ei lansio ym mis Ebrill 2010. Bydd yn rhoi cyfle i ffermwyr arallgyfeirio i gynhyrchu ynni adnewyddadwy a'i werthu i gwsmer parod (y Grid Cenedlaethol). Byddan nhw'n cael eu talu am bob cilowat y byddan nhw'n ei gynhyrchu. Bydd o fudd ariannol i ffermwyr o'i gymharu â grant Glastir am gynhyrchu ynni adnewyddadwy, o gofio'r cyfyngiadau ar sut i'w ddefnyddio. O ganlyniad, mae grant Glastir yn fwy tebygol o ganolbwyntio ar arbed ynni, dŵr a maethynnau ar ffermydd yn hytrach nag ar gynhyrchu ynni.

7 GLASTIR - YR ELFEN TIR COMIN		
7.1	**Pa mor bwysig fydd rheoli tir comin o fewn Glastir?**	Mae rheoli tir comin yn bwysig iawn gan fod 1500 o diroedd comin cofrestredig a 175,000 ha o dir comin, sef 8% o arwynebedd y tir yng Nghymru.
7.2	**A fydd tir comin yn gymwys o dan y cynllun newydd?**	Bydd gan Glastir elfen ar wahân yn arbennig ar gyfer tir comin. Bydd gofyn i 80% o'r porwyr actif gytuno i gydweithio i reoli'r tir comin yn unol ag amodau penodol. Bydd yr Elfen wedi'i Thargedu hefyd yn cynnwys agweddau ar reoli tir comin.
7.3	**Pa gategorïau o dir comin fydd yn gymwys?**	• Tir fydd wedi'i gofrestru fel tir comin o dan Ddeddf Cofrestru Tir Comin 1965. • Tir sy'n cael ei bori gan fwy nag un porwr ond nad yw wedi'i gofrestru o dan Ddeddf Cofrestru Tir Comin 1965, ac sydd â'r mathau o lystyfiant tir uchel neu dir isel a geir ar dir comin cofrestredig fel gweundir, gorgors, glaswelltir tir uchel, tir pori garw lled-naturiol. • Caiff y penderfyniad p'un ai i gynnwys neu wrthod y tiroedd hyn ei wneud bob yn un ar ôl asesiad technegol gan Lywodraeth y Cynulliad.
7.4	**Beth fydd sail y cytundeb â chominwyr?**	Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn arwyddo contract â Chymdeithas Bori. Bu gan gytundebau AAS a TG gontractau tebyg a gwelwyd eu bod yn gweithio'n dda. Mae trefniadau'n cael eu gwneud trwy'r Adran Materion Gwledig i helpu i sefydlu Cymdeithasau lle nad oes rhai'n bod a chyflwyno fframwaith gweinyddol i'w helpu â'r gwaith rheoli o ddydd i ddydd.
7.5	**Beth yw'r gwahaniaeth rhwng 'cymdeithas bori' a 'chymdeithas**	Term generig yw 'cymdeithas bori' sy'n cynnwys cymdeithasau cominwyr; cymdeithasau pori ar dir heblaw tir comin e.e. tir y

	gominwyr'?	Weinyddiaeth Amddiffyn.
7.6	**Ga' i wneud cais am yr Elfen Tir Comin gyda'r bwriad o sefydlu Cymdeithas Bori?**	Os na fydd Cymdeithas Bori wedi'i sefydlu mewn pryd i allu ymgeisio am gontract Glastir, caiff y grŵp enwebu Prif Borwr i wneud cais ar eu rhan. Er hynny, rhaid sefydlu'r Gymdeithas Bori erbyn dechrau'r contract Glastir.
7.7	**Beth os bydd yr 20% o'r cominwyr na fydd wedi ymaelodi â'r Gymdeithas yn gwrthod cadw at yr amodau rheoli?**	Ar sail ein profiadau â'r cynlluniau AAS/TG, o dan Glastir cyfrifoldeb y Gymdeithas Bori fydd rheoli gweithgareddau ar y tir comin. Bydd hynny'n cynnwys cadarnhau bod 80% o'r porwyr actif wedi'u cynnwys yn y cais ond bydd y Gymdeithas hefyd yn gyfrifol am yr holl weithgareddau ar y Comin. Mae hon yn rheol o dan yr UE. Yn ddelfrydol, byddwn ni wedi hoffi mynnu bod 100% o'r porwyr yn ymaelodi ond mae profiad o gynlluniau DEFRA wedi dangos nad yw hynny'n gweithio. Mae Llywodraeth y Cynulliad felly wedi gorfod cael hyd i gyfaddawd sy'n rhoi digon o reolaeth ar yr ardal i ateb gofynion yr UE o ran cynnal archwiliadau yn y dyfodol (mae'r UE yn cefnogi cynnwys 80%).
7.8	**Beth yw 'porwr actif'?**	Mae porwr actif yn cynnwys: • Cominwr sy'n defnyddio ei hawliau pori ar y comin; • Cominwr nad yw'n defnyddio ei hawliau pori ar y comin gan ei fod wedi cytuno i dynnu'i stoc o'r comin o dan gytundeb rheoli; • Cominwr sydd newydd roi'r gorau i ddefnyddio ei hawlio pori ar y comin (e.e. oherwydd mesurau rheoli yn ystod Clwy'r Traed a'r Genau) ond sy'n dal â budd yn y ffordd y mae'r comin yn cael ei reoli.
7.9	**A fydd unig borwyr yn gymwys?**	Byddan. Ni fydd angen i unig borwr gofrestru ar wahân ond bydd gofyn iddo ddangos ar ei Gais Glastir (2010) bod ganddo hawliau pori ar y comin fel unig borwr. Caiff Pecyn Ymgeisio Tir Comin Glastir ei anfon wedyn at yr unig borwr.

7.10	**Beth yw'r amodau ar gyfer tir comin?**	Nid yw'r elfen hon yn gweithio ar system bwyntiau. Bydd dewis rhwng cynnal cyfnod caeedig o dri mis o'r bron rhwng 1 Tachwedd a 31 Mawrth **NEU** rheoli cynefin (gyda rhestr o amodau rheoli gan gynnwys uchder y borfa). Bydd hefyd rhestr o ofynion ychwanegol ar gyfer pob tir comin ddaw o dan y cynllun.
7.11	**A gaiff y Gymdeithas Bori ei chosbi os bydd yr '20%' yn gwrthod cydymffurfio â'r amodau rheoli ar gyfer y comin?**	Bydd y Gymdeithas Bori yn gorfod ysgwyddo'r cyfrifoldeb am dramgwyddau'r 20% fydd heb ymaelodi â'r Gymdeithas. Fodd bynnag, yn ôl tystiolaeth ardaloedd fel Ireland Moor yn Sir Faesyfed, mae'r ardaloedd hyn wedi datblygu eu polisïau goruchwylio eu hunain sydd i bob golwg yn effeithiol iawn, ac i raddau, rydym wedi datblygu arnynt. Bydd problem tresmaswyr yn fater i'r Gymdeithas Bori ei datrys. O gofio'r problemau difrifol y mae tresmaswyr a diffyg cydweithrediad yn eu hachosi ar rai tiroedd comin, mae'n debyg na fydd modd cynnal 'Tir Comin Glastir' ym mhobman. Bydd Swyddogion Datblygu Tiroedd Comin yn edrych ar yr amrywiaeth o broblemau sy'n codi gyda thiroedd comin.
7.12	**Mae fy nghymdeithas bori i yn cynrychioli rhan o gomin sydd wastad wedi cael ei ystyried yn (is)-gomin ar wahân. A gaiff yr is-gomin wneud cais ar wahân?**	Lle bo nifer o Gymdeithasau Pori o fewn yr un Tir Comin, bydd angen i'r ymgeiswyr gael trefn ar bethau. Bydd Llywodraeth y Cynulliad am ddelio â chomin fel un ardal gydag un Gymdeithas Bori yn ei gynrychioli oni bai bod ffiniau ffisegol yn cyfiawnhau rhannu'r Comin yn ardaloedd ar wahân. Rydym wedi clywed am hyd at bum Cymdeithas Bori yn cynrychioli un Rhif Comin. Ni fyddai'r sefyllfa honno'n ymarferol i ni.
7.13	**A fyddai tir y Weinyddiaeth Amddiffyn (e.e. Epynt) yn gymwys?**	Nid yw tir y Weinyddiaeth Amddiffyn fel Epynt wedi'i gofrestru fel tir Comin o dan Ddeddf Cofrestru Tiroedd Comin 1965. Rydym wedi

		datblygu'r diffiniad gyda'r gobaith o gynnwys hefyd dir y Goron/Ymddiriedolaeth Genedlaethol sydd â'r tri math o lystyfiant sydd yn ôl CCGC yn tyfu ar diroedd comin cofrestredig a phenderfynu ar geisiadau gan eraill bob yn un yn ôl eu rhinweddau.
7.14	**Ydych chi'n rhagweld y bydd y Cynllun Tir Comin yn llawn problemau?**	Gwaetha'r modd, mae tiroedd comin yn bwnc cymhleth, a bydd hi'n amhosibl cynnig cynllun fydd heb ei feiau. Nid ydym eto wedi llwyddo i ddatrys pob un o broblemau'r Elfen Tir Comin ond rydym yn gobeithio gallu gwneud hynny cyn hir. Nid ydym eto mewn sefyllfa i allu rhoi rhestr lawn o'r holl amodau rheoli.
7.15	**Pa help fydd ar gael i gominwyr?**	Caiff 18 o Swyddogion Datblygu Tiroedd Comin eu cyflogi yng Nghymru i weithio gyda Chymdeithasau Pori a Chymdeithasau Cominwyr ac i helpu i sefydlu cymdeithasau.
7.16	**A fydd ffermwyr sy'n derbyn taliad Tir Comin trwy'r cynllun Tir Mynydd yn cael defnyddio hwnnw yn y cynllun newydd?**	Nid ydym wedi penderfynu ar hyn eto ond gan y caiff pob tir comin ei fapio o'r newydd ar gyfer Glastir, mae'n bosibl y bydd y ffiniau a fydd yn cael eu defnyddio i bennu taliadau'n wahanol.
7.17	**Pryd bydd y Cynllun Tir Comin yn agored i geisiadau?**	Cewch eich cyfle cyntaf i wneud cais am y rhan hon o'r cynllun Glastir ar eich SAF 2011. Bydd contractau'n cychwyn yn 2012.

8 COETIR		
	Cwestiwn	**Ateb**
8.1	**A fydd Glastir yn ei gwneud hi'n haws imi ymuno â'r cynllun Coetiroedd Gwell i Gymru (BWW)?**	Nid oes cysylltiad rhwng Glastir a'r BWW. Os ydych am ymuno â'r BWW, rhaid ichi wneud cais ar wahân i Gomisiwn Coedwigaeth Cymru. Mae BWW yn cynnig grantiau i gynllunwyr rheoli sy'n goedwigwyr proffesiynol - y nhw fydd yn delio â'r broses ymgeisio ar ran y cwsmer. Mae'r Comisiwn Coedwigaeth wrthi'n datblygu cynllun grant cyfalaf bychan o'r enw Camau Cyntaf. Cynllun gwahanol yw hwn y gallai cwsmeriaid Glastir fynd amdano i gael help ar gyfer rhai mathau o waith mewn coetiroedd.
8.2	**A fydd y cynllun Coetiroedd Gwell i Gymru yn parhau?**	Bydd, er ein bod yn gweithio gyda'r Comisiwn Coedwigaeth i ddatblygu ffordd symlach i ffermwyr gael grantiau ar gyfer rheoli'u coetiroedd. Bydd hynny'n cynnwys datblygu cynllun grant cyfalaf bychan newydd o'r enw *Camau Cyntaf*. Y bwriad yw i'r Comisiwn Coedwigaeth ddechrau'r cynllun hwn yn 2010. Mae'r Comisiwn Coedwigaeth wedi symleiddio hefyd proses ymgeisio'r BWW ar gyfer coedlannau llai, gan greu cynllun o'r enw y cynllun Coedwigoedd Bach. Maen nhw'n dal wrthi'n archwilio'r holl reolau i fusnesau i weld cyfleoedd i wneud yn broses yn fwy effeithlon.
8.3	**A fydd y Cynllun Premiwm Tir wedi'i Wella yn parhau?**	Bydd. Mae ffermwyr yn hawlio'r Premiwm hwn ar y SAF ac mae'n rhoi taliadau blynyddol i berchnogion tir i'w digolledu am

		blannu coedlannau newydd, lle bydd da byw wedi'u gwahardd, ar laswelltir wedi'i wella, o dan gynllun Coetiroedd Gwell i Gymru (BWW) Comisiwn Coedwigaeth Cymru.
8.4	**A fydd cyllideb BWW yn newid ar ôl cyflwyno Glastir?**	Bydd.
8.5	**Os ydy Coetiroedd Gwell i Gymru yn parhau, pam mae Glastir yn cynnwys coed a choedlannau?**	Mae coed a choedlannau yn ddefnyddiau tir pwysig fydd yn gallu helpu cwsmeriaid i wireddu llawer o'r canlyniadau y mae Glastir yn ceisio'u gwireddu. Bydd angen i gwsmeriaid allu cael help i greu coedlannau'n rhwydd gyda chyn lleied o waith papur â phosibl. I wneud hynny, mae opsiynau sy'n delio â choed yn rhan o Glastir, hynny yn ogystal â'r cynllun BWW fydd yn rhedeg yn gyfochrog ag e'. Mae hyn yn gam at greu cynllun rheoli tir integredig gydag un pwynt ymgeisio am yr holl gymorth sydd ar gael ar gyfer gweithgareddau rheoli tir.
8.6	**Pa opsiynau ar gyfer coed a choedlannau sydd wedi'u cynnwys yn Glastir?**	Mae nifer o opsiynau rheoli sy'n delio â choed a choedlannau bach iawn wedi'u cynnwys yn yr Elfen Cymru Gyfan, er enghraifft diogelu hen goed, plannu coed i wella'r tir ar lan nentydd a chreu coridorau i gysylltu â choedlannau eraill. Yn yr Elfen wedi'i Thargedu, er enghraifft, mae creu coedlannau mwy wedi'i gynnwys i wella ansawdd a swm dŵr ac i wireddu amcanion newid hinsawdd fel dal carbon. Bydd yr opsiynau rheoli'n cael eu datblygu'n ofalus i sicrhau bod y coedlannau newydd yn dod ag amrywiaeth o fuddiannau i gwsmeriaid.
8.7	**Mae fy HOLL dir yn goed, a ga' i ymuno â Glastir?**	Na chewch, ond bydd cynllun BWW Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn dal yn agored i chi. ***(gweler C8.2 uchod)***
8.8	**Mae cyfran fawr o'm fferm yn goed. Sut gallai hynny effeithio ar fy**	Cyn belled â'ch bod yn gallu casglu cyfartaledd o 28 o bwyntiau ar bob hectar o dir, gan gynnwys y tir sydd o dan goed, bydd

	nghais i ymuno â Glastir?	eich cais yn ddilys.
8.9	**Rwyf eisoes yn aelod o'r Cynllun BWW. Ga' i wneud cais i ymuno â Glastir?**	Cewch. Cyn belled â'ch bod yn gallu casglu cyfartaledd o 28 o bwyntiau ar bob hectar o dir, gan gynnwys y tir sydd o dan goed, bydd eich cais yn ddilys. Oni fydd hyn yn golygu 'mod i'n cael fy nhalu ddwywaith?
8.10	**A fydd Comisiwn Coedwigaeth Cymru'n helpu i roi'r cynllun Glastir ar waith?**	Mae Comisiwn Coedwigaeth Cymru wedi bod yn gweithio gyda Thîm Datblygu Glastir i ddatblygu'r opsiynau rheoli a safonau dilysadwy. Maen nhw hefyd ar gael i gynnig cymorth technegol a lle bo angen, i ddarparu hyfforddiant i Swyddogion Prosiect ac Arolygwyr ynghylch yr amodau a'r safonau sy'n ymwneud â choed.
8.11	**Beth yw gwaith rheoleiddio'r Comisiwn Coedwigaeth?**	Bydd y Comisiwn Coedwigaeth yn dal i reoleiddio gwaith torri coed trwy roi trwyddedau cwympo a gwaith creu coedlannau trwy Asesu Effeithiau Amgylcheddol. Byddwn yn gweithio gyda Thimau Darparu Glastir i wneud yn siwr eu bod yn gwybod am y rheoliadau hyn a bod cwsmeriaid yn gwneud y ceisiadau angenrheidiol.
8.12	**Pwy sy'n talu am y cymorth ar gyfer coed a choedlannau?**	Mae'r cymorth ar gyfer yr holl waith gyda choed wedi'i gynnwys yng Nghynllun Datblygu Gwledig 2007-2014.
8.13	**Sut mae Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn gweithio o fewn yr Adran Materion Gwledig?**	Mae coedwigaeth a choedlannau yn bwnc wedi'i ddatganoli ac felly mae polisi a gweithredu yn y maes yn fater i Lywodraeth y Cynulliad. Comisiwn Coedwigaeth Cymru yw adran goedwigaeth Llywodraeth y Cynulliad ac mae'n gyfrifol am nifer o bethau gan gynnwys datblygu Strategaeth Coetiroedd Cymru - *Coetiroedd i Gymru.* Comisiwn Coedwigaeth Cymru sy'n rheoli Ystad Goed Llywodraeth y Cynulliad yng Nghymru, yn gorfodi rheoliadau ac yn rhannu grantiau trwy'r cynllun BWW. O ran grantiau coetir, mae Comisiwn Coedwigaeth Cymru wedi cydweithio'n glos â'r Adran Materion Gwledig am nifer o flynyddoedd ac mae grantiau

		coetir yn rhan o Gynllun Datblygu Gwledig Cymru.
8.14	**A fydd parseli a oedd â'r cod BWI (coetir heb ei bori) yn gymwys am daliad Glastir?**	Byddan, os oes opsiwn rheoli addas yn yr elfen wedi'i thargedu a bod swyddog y prosiect yn teimlo ei fod yn addas.
8.15	**A fydd y cae cyfan yn gymwys os ydy cae 5ha (er enghraifft) wedi'i rannu'n 4.60 (GR2), 0.20 (BW1), 0.10 (ZZ98) a 0.10 (ZZ96)?**	Na fydd. Mae ZZ96 a 98 yn anghymwys am y tro am nad oes amodau rheoli penodol ar gyfer y nodweddion hynny.

9	FFERMIO ORGANIG	
	Cwestiwn	**Ateb**
9.1	**Hoffwn droi'n organig. A oes cymorth ariannol ar gael cyn dechrau Glastir?**	Mae £2.8m wedi'i neilltuo dros 2010-12 i helpu ffermwyr sydd am droi eu fferm gyfan yn organig. Bydd ar gael ar gyfer tir nad yw wrthi'n cael ei droi'n organig nawr ac mae'n amodol bod cytundeb wedi'i gynnig yn ffurfiol. Bydd y nawdd yn para am y cyfnod troi o 2 flynedd yn unig. Caiff manylion cyfnod ymgeisio 2010 eu cyhoeddi cyn hir.
9.2	**Rydych wedi dweud y daw'r Cynllun Ffermio Organig (OFS) o dan Glastir. Sut bydd hyn yn gweithio?**	Bydd cronfa troi'n organig yn rhan o Glastir. Bydd unrhyw un sy'n ymuno ag Elfen Cymru Gyfan Glastir yn cael gwneud cais am arian o'r gronfa troi'n organig i'w helpu dros y cyfnod troi'n organig.
9.3	**Beth am daliadau cynnal?**	Os oes gan ffermwr dystysgrif organig ar gyfer ei fferm gyfan, dim ond hanner y pwyntiau y bydd angen iddo eu casglu i gael ymuno â Glastir. Felly, bydd hanner ei daliad Glastir yn daliad i gefnogi ei statws organig. Bydd hyn yn para tra bydd yn aelod o Glastir. Yr un fydd y rheolau ar gyfer ffermwr sy'n troi ei fferm gyfan yn organig ar ôl ymuno â Glastir.
9.4	**Rwyf yn yr OFS ar hyn o bryd ac mae fy nghytundeb yn dod i ben ar ôl i'r cynllun Glastir ddechrau. A ga' i ymuno â'r cynllun?** **A ddylai holl dir ar y fferm fod yn y broses o droi'n organig er mwyn imi allu cael y disgownt o 50% o'r pwyntiau?**	Bydd ffermwyr sy'n aelodau o'r OFS yn cael ymuno â Glastir heb y disgownt ar unwaith. I gael y disgownt o 50%, rhaid bod y fferm gyfan wedi'i **hardystio** adeg ymuno â Glastir neu cyn hynny. Rhag cael eich talu ddwywaith am yr un peth, mae aelodau presennol yr OFS sydd am gael y disgownt o 50% yn gorfod dod â'u cytundeb OFS i ben cyn ymuno â Glastir.

9.5	**Pam ydym ni'n cefnogi ffermwyr sy'n troi'n organig yn hytrach na'u cefnogi i fod yn organig, fel gyda'r cynlluniau o'r blaen?**	Bydd ffermwyr fydd wedi troi'n organig yn y cyfnod pontio yn gymwys i ymuno â Glastir yn 2012 a chael y disgownt o 50% o bwyntiau i'w helpu i ddiogelu'u statws organig.
9.6	**Sut bydd Llywodraeth y Cynulliad yn blaenoriaethu ffermwyr sy'n troi'n organig?**	Bydd manylion yn cael eu cyhoeddi yn nes at y cyfnod ymgeisio.
9.7	**Os bydda' i'n dechrau troi'n organig nawr, a fydda' i'n siwr o gael cymorth?**	Na fyddwch. Dim ond ffermwyr sy'n aros tan fod cytundeb troi'n organig gan Lywodraeth y Cynulliad yn cael ei gynnig yn ffurfiol iddynt fydd yn cael cymorth.
9.8	**Am faint y bydd cytundebau OFS newydd sy'n cael eu cynnig yng nghyfnod ymgeisio 2009 yn para?**	Bydd cytundebau OFS newydd fydd yn cael eu cynnig yn rownd 2009/2010 yn para am 5 mlynedd gyda chymal terfynu yn 2013.
9.9		
9.10	**A fydd amodau rheoli gwahanol ar gyfer ffermwyr organig?**	Mae elfen Glastir wahanol yn cael ei datblygu ar gyfer ffermwyr sydd am droi'n organig.

10 CEISIADAU AC AMODAU YMUNO Â GLASTIR		
	Cwestiwn	**Ateb**
10.1	**Pryd bydd ffermwyr yn cael pecyn gwybodaeth Glastir?**	Bydd gwybodaeth yn cael ei chyflwyno i ddechrau trwy gyfres o gyfarfodydd a chyflwyniadau gan Lywodraeth y Cynulliad â'i phartneriaid ac â phobl sydd â diddordeb. Mae Gwlad yn cyhoeddi gwybodaeth hefyd. Mae llyfryn sy'n esbonio Glastir yn cael ei anfon gyda ffurflenni SAF 2010 at holl gwsmeriaid y SAF ac at ffermwyr sydd â chytundebau amaeth-amgylcheddol sydd ddim yn cyflwyno SAF.
10.2	**Sut bydd ffermwyr yn gwneud cais i'r cynllun newydd?**	Rhaid iddynt fynegi diddordeb ar Ffurflen Cais Sengl (SAF) 2010. Bydd y rheini fydd wedi mynegi diddordeb yn cael ffurflen gais ar gyfer yr Elfen Cymru Gyfan ym mis Medi.
10.3	**Er mwyn i'r cynllun lwyddo, faint o geisiadau fydd eu hangen?**	Does dim targed. Penderfyniad busnes i ffermwyr yw ymgeisio am Glastir neu beidio. Bydd llwyddiant yn cael ei fesur o safbwynt y canlyniadau amgylcheddol. Bydd unrhyw arian fydd heb ei wario yn cael ei ddefnyddio yn rhan arall o'r Cynllun Datblygu Gwledig.
10.4	**A fydd ceiswyr yn derbyn map o'u daliad?**	Bydd map yn cael ei baratoi o'r holl dir y bydd y ceisydd wedi dweud ar ei SAF 2010 sydd o dan ei reolaeth lwyr yn 2012. Amgaeir y map ym mhecyn ymgeisio Glastir .
10.5	**Pryd bydd Glastir yn cael ei gyflwyno?**	Rydym wedi gwrando'n ofalus ar bryderon ffermwyr ac eraill ac rydym wedi penderfynu gohirio cyflwyno'r cynllun newydd tan 2012 yn lle 2010 er mwyn i ffermwyr gael amser i gynllunio ar ei gyfer. Byddwn yn gofyn i ffermwyr wneud cais yn 2010 a daw'r contractau'n fyw o 1 Ionawr 2012. Bydd cyfnod pontio i'r rheini sy'n perthyn i'r cynlluniau Tir Gofal

		a Tir Cynnal er mwyn cynnal lefel eu hincymau tan 2014. Bydd hyn yn rhoi cyfle iddyn nhw addasu cynlluniau eu busnesau ac osgoi newidiadau sydyn.
10.6	**Ai 2010 yw'r unig gyfle i ymuno â Glastir?**	Bydd cyfle bob blwyddyn ar y SAF i ymuno â Glastir, gan ddibynnu ar faint o arian fydd yn y gyllideb.
10.7	**Beth yw'r arwynebedd lleiaf y mae'n rhaid i ffermwr fod â rheolaeth lwyr arno cyn cael ymuno â Glastir ac a fydd hyn yn newid?**	3 Hectar yw'r arwynebedd lleiaf.
10.8	**A oes terfyn uchaf i faint o dir y caiff ffermwr sy'n ymuno â Glastir fod â rheolaeth arno?**	Nac oes, cynllun fferm gyfan yw Glastir; mae'r system bwyntiau wedi'i chynllunio i beidio â rhoi ffermydd bach na rhai mawr o dan anfantais.
10.9	**Beth yw contract cyflenwi?**	Rydym wedi defnyddio'r term 'contract cyflenwi' yn fwriadol i ddisgrifio'r cytundeb rhwng Llywodraeth y Cynulliad a ffermwyr o dan y cynllun newydd. Mae'n adlewyrchu pwrpas cynllun amaeth-amgylcheddol – bod Llywodraeth y Cynulliad yn prynu nwyddau a gwasanaethau amgylcheddol oddi wrth ffermwyr na fyddai mecanweithiau arferol y farchnad yn talu iddynt i'w cyflenwi. Llywodraeth y Cynulliad felly yw'r cwsmer a'r ffermwr yw'r cyflenwr. Bydd natur y contract yn adlweyrchu'r bartneriaeth.
10.10	**A fydd y contractau cyflenwi newydd yn gytundebau ar gyfer ffermydd cyfan?**	Byddant. Bydd yr holl dir y mae'r ymgeisydd yn gyfrifol am ei reoli yn dod o dan yr amodau.
10.11	**A fydd yn rhaid i'r ffermwr arwyddo'r**	Bydd

	contract ar ddiwrnod y cyfarfod ymgynghori 1 ac 1?	
10.12	**Beth yw blwyddyn y cynllun Glastir?**	Bydd blwyddyn y cynllun Glastir yn dilyn y flwyddyn galendr - 1 Ionawr tan 31 Rhagfyr.
10.13	**Beth yw hyd y contract cyflenwi a pha gyfnod fydd yn cael ei gwmpasu ganddo?** **A oes terfyn i hyd y contract?**	Bydd y contractau cyflenwi cyntaf yn dechrau ar 1 Ionawr 2012 ac yn para am 5 mlynedd.
10.14	**A fydd yn agored i ffermwyr sy'n ffermio tir o dan gytundeb gosod cyfnod byr?**	Na fydd.
10.15	**A fydd ffermwyr nad ydynt yn hawlio'r SAF yn cael ymuno â'r cynllun Glastir?**	• Os nad oes gan ffermwr 'newydd' Gyfeirnod Cwsmer (CRN) na thir wedi'i gofrestru gyda'r System Integredig Rheoli a Gweinyddu (IACS), rhaid iddo ofyn am CRN neu gyflwyno ffurflen Manylion y Cwsmer (CDW) a ffurflen Cynnal Caeau (FM). Caiff Rhestr Tir ei hanfon at y ffermwr a chaiff wedyn fynegi diddordeb yn Glastir ar y SAF. • Os nad oes gan y ffermwr gytundeb SAF neu amaeth-amgylcheddol, rhaid iddo gyflwyno'r ffurflen FM i gael rhestr tir ac wedyn caiff fynegi diddordeb yn Glastir ar y SAF. • Os nad oes ganddo gytundeb SAF ond ei fod wedi arwyddo cytundeb amaeth-amgylcheddol, bydd yn cael SAF 2010 gyda manylion y tir wedi'u printio arni. Caiff wedyn fynegi diddordeb yn Glastir ar ei SAF.

10.16	**A oes angen i ffermwyr gofrestru eu tir cyn cael ymgeisio?**	Oes. Mae angen cofrestru'r tir ar System Adnabod Parseli Tir Llywodraeth y Cynulliad.
10.17	**A oes angen i ymgeiswyr Glastir gofrestru am Ffurflen Gais Sengl (SAF)?**	Dim ond os ydyn nhw'n gwsmeriaid newydd Taliadau Gwledig Cymru. Bydd ffermwyr sydd eisoes yn cyflwyno SAF yn cael un lân yn awtomatig.
10.18	**A fydd yn rhaid i aelodau gadw at ofynion Trawsgydymffurfio a GAEC?**	Bydd.
10.19	**A oes help ar gael i ymgeiswyr i lenwi'r ffurflen gais?**	Rhwng nawr a chyfnod ymgeisio cyntaf y cynllun newydd, byddwn yn esbonio'r cynllun a'r drefn a'r amserlen ymgeisio.
10.20	**A fydd grantiau cyfalaf ar gyfer dwy lefel y cynllun?**	Nid ar gyfer Elfen Cymru Gyfan y Cynllun. Bydd ar gyfer ACRES (ynni adnewyddadwy). Bydd ar gyfer yr Elfen wedi'i Thargedu.
10.21	**A fydd ffermwr yn cael ymgeisio i Glastir gan ddefnyddio tir y mae ei denantiaid yn hawlio Taliad Sengl arno?**	Na fydd. Ni fydd modd hawlio dwywaith ar yr un tir, dywed y Comisiwn. Yr un hawlydd fydd yn hawlio Glastir a'r Cynllun Taliad Sengl ar yr un tir.
10.22	**A fydd Llywodraeth y Cynulliad yn darparu ffurflen sy'n ateb y gofyn am gytundeb 'rheoli 5 mlynedd' rhwng landlord a thenant?**	Bydd ymgeiswyr yn cael cyngor clir ar ba wybodaeth sydd ei hangen i brofi bod y tir o dan eu rheolaeth am 5 mlynedd.
10.23	**A fydd yn rhaid arwyddo'r cytundeb 5 mlynedd yn ystod y cyfarfod ymgynghori 1 ac 1?**	Bydd. Rhaid gofalu bod yr wybodaeth hon ar gael cyn i'r contract Glastir rhwng Llywodraeth y Cynulliad a'r ffermwr gael ei arwyddo.
10.24	**Pa mor siwr ydych chi y byddwch chi'n gallu rhoi'r cynllun hwn ar waith erbyn 2012?**	Rydym yn hyderus y byddwn wedi gwneud popeth yn ein gallu i gael popeth yn barod erbyn y dyddiad cychwyn. Hefyd, mae gan Is-adran Taliadau Gwledig Llywodraeth y Cynulliad record

		wych o weithio gyda charfanau perthnasol i roi newid ar waith (e.e. y diwygiadau i'r PAC yn 2005) a'i gobaith yw ailadrodd llwyddiant y gorffennol gyda'r cynllun newydd hwn. Bydd yn rhaid cydweithio'n agos â charfanau perthnasol i wneud yn siwr ei fod yn cael ei weinyddu'n effeithiol ac i wneud popeth posibl i'w gael yn barod erbyn y dyddiad cychwyn. Rydym yn sylweddoli bod rhai taliadau amaeth-amgylcheddol wedi cael eu talu'n hwyr yn y gorffennol. Mae'r cynllun newydd yn symlach i'w weinyddu a dylem felly allu talu cyfran uwch o'r taliadau'n brydlon.
10.25	**A fydd ffermwyr newydd a fydd yn dechrau ffermio ar ôl 2012 yn cael gwneud cais i Glastir?**	Gan ddibynnu ar faint o arian fydd yn y gyllideb, rydym yn disgwyl y ceir cyfnodau ymgeisio Glastir newydd pellach.
10.26	**Ble alla' i gael mwy o wybodaeth am Glastir?**	Mae'r holl wybodaeth sydd ar hyn o bryd ar gael i ffermwyr i gyd ar y wefan.

Indemneiddio		
10.27	**Mae fy nhenantiaeth yn para llai na 5 mlynedd. A fydd angen i fy landlord warantu (neu indemneiddio) fy nghontract Glastir?**	Bydd y landlord yn cael gwarantu'r contract Glastir **cyfan** os ydy'r denantiaeth yn para mwy na blwyddyn ond llai na 5 mlynedd. Mae'n debygol y bydd gofyn i'r landlord gadarnhau ei fod yn gwybod fod y tenant yn gwneud cais a bydd gofyn iddo gymeradwyo ei gais. Bydd gofyn iddo hefyd gydlofnodi contract Glastir y tenant gan y bydd y contract yn cael ei drosglwyddo yn ôl i'r landlord pan fydd yn cymryd y tir yn ôl. Y landlord fydd yn gyfrifol am y contract llawn o hynny ymlaen.
10.28	**Os ydw i'n rhentu rhan o'r tir am lai na 5 mlynedd, a ga' i ddod â'r tir hwn hefyd o dan Glastir?**	Mae'n bosibl y caiff landlord warantu **rhan** o gontract Glastir os ydy'r denantiaeth ar gyfer y rhan honno'n para llai na 5 mlynedd. Ond oherwydd cymhlethdod cyfri'r pwyntiau'n dros 5 mlynedd, nid

		ydym yn siwr a ddylid caniatáu gwarantu rhan o gontract Glastir. Ni fyddwn yn caniatáu i neb warantu darn o dir sy'n llai na'r lleiafswm o 3ha. Ni fydd y darn hwnnw o dir yn cael ei gynnwys yng nghontract Glastir.
10.29	**Sut byddwn ni'n trin tenantiaeth lafar? A fydd prawf bod rhent yn cael ei thalu yn digon i brofi bod tenantiaid yn meddiannu'r tir? Mae'r TFA yn fwy na bodlon cynnig awgrymiadau eraill ar sut i ddatrys y broblem hon os nad yw hynny'n ddigon.**	Ar hyn o bryd, y cyfan y gallwn ei wneud yw cynghori ffermwyr sydd heb gytundebau ysgrifenedig i ystyried cael un er mwyn rhoi sail cyfreithiol i'w cytundeb. Er na allwn ddweud yn bendant sut y bydd cytundebau llafar yn cael eu trin mewn cysylltiad â Glastir, fe fyddan nhw yn y pen draw yn codi cwestiynau o ran cyfreithlondeb a rheolaeth.
10.30	**Gallai Tenantiaeth Busnes Fferm fod yn 8 mlynedd o hyd ond gyda chymal terfynu ar ôl 4. Ni fyddai felly yn bodloni'r angen am gynllun 5 mlynedd gan y gallai'r denantiaeth ddod i ben ar ôl 4 blynedd.**	Byddai gofyn i'r landlord lofnodi gwarant.
10.31	**Mae rhai cytundebau yn caniatáu i'r landlord gymryd tir oddi ar y denantiaeth unrhyw bryd ac am unrhyw reswm e.e. yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol. A fyddai hynny'n dderbyniol o dan Glastir?**	Nid ydym wedi penderfynu ar hyn eto.
10.32	**Gan fod cymalau terfynu'n bethau cyffredin mewn Tenantiaethau Busnes Fferm a chan fod gan landlordiaid yr hawl i gymryd tir**	Gweler 10:31 uchod.

oddi ar denantiaeth, ydyn ni'n gwybod sut y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn edrych ar y cymalau hyn o safbwynt Glastir?

11 TREFNIADAU PONTIO		
	Cwestiwn	**Ateb**
11.1	**Rwy'n aelod o'r cynllun Tir Gofal (TG) neu Tir Cynnal (TC), beth yw'r dewis i mi?**	Rydych yn gallu ymuno â Glastir trwy ddewis opsiynau sy'n ychwanegol at yr amodau/opsiynau rydych yn eu darparu o dan eich cytundeb presennol.
11.2	**Ydy hyn yn cynnwys cytundebau TG neu TC a fyddai'n dod i ben yn naturiol cyn Rhagfyr 2013.**	Ydy
11.3	**Estynnais fy nghytundeb TC/TG hyd 2013 ac rwyf am ymuno â Glastir; a oes yna gyfyngiadau?**	Oes, ni fyddwch yn gallu cael grant ACRES, yr Elfen wedi'i Thargedu na chwaith Elfen Tir Comin Glastir.
11.4	**A ga' i ddod â 'nghytundeb TG neu TC i ben heb gosb ac ymuno â Glastir yn lle hynny?**	Cewch, o safbwynt TC.
11.5	**A yw'n wir dweud na fydd rhai cytundebau TG yn dod i ben tan 2014?**	Ydy. Bydd nifer fach o'r cytundebau a gymeradwywyd yn 2009 yn dod i ben yn 2014.
11.6	**A ga' i wneud rhagor o waith grantiau cyfalaf o dan fy nghytundeb TG presennol?**	Caiff grantiau cyfalaf sy'n rhan o gytundebau TG presennol eu hanrhydeddu. Ond ni fydd yn bosibl cytuno ar waith grant cyfalaf newydd o dan y cytundeb estynedig.
11.7	**Sut alla' i ddweud a yw fy nghytundeb TG neu TC wedi'i estyn?**	Os gwnaethoch chi dderbyn cynnig i estyn eich cytundeb Tir Cynnal neu Tir Gofal o dan y trefniadau pontio, byddwch wedi cael gwybod ddechrau mis Chwefror gan Taliadau Gwledig Cymru trwy lythyr am yr estyniad. Ar gyfer y rheini sydd heb ymateb neu sydd wedi gwrthod y cynnig, bydd y cytundebau naill ai'n dod i ben ar y cymal terfynu 5 mlynedd, diwedd yr ymrwymiad 10 mlynedd os

		ydy'r 5 mlynedd cyntaf wedi mynd heibio neu erbyn 31 Rhagfyr 2013 os ydy hynny'n gynt.
11.8	**Beth sy'n digwydd i daliadau Tir Mynydd?**	Caiff y taliad Tir Mynydd olaf ei wneud ym mis Mawrth 2011. Ar ôl hynny, daw'r cynllun i ben.
11.9	**Beth os ydy'r ffermwr yn disgwyl adolygiad 5 mlynedd - a fydd gwaith grant cyfalaf yn cael mynd yn ei flaen tan y 10fed blwyddyn?**	Dim ond y rheini lle rydym wedi gwneud ymrwymiad yn ystod y broses adolygu hyd yma.
11.10	**Pam wnaethoch chi estyn cytundebau TG ond gwrthod caniatáu pobl newydd i ymuno?**	Rydym eisoes wedi buddsoddi arian mawr i sicrhau manteision amgylcheddol ar y ffermydd hyn. Lle medrir, mae angen cynnal y manteision amgylcheddol y mae'r llywodraeth a ffermwyr wedi'u sicrhau yn sgil buddsoddi'n sylweddol mewn cynlluniau.
11.11	**Rwyf am ymuno â Glastir yn 2012 a derbyniais y cynnig i ddod i drefniant pontio newydd gyda Tir Cynnal/Tir Gofal; a ga' i er hynny fy nhalu ar gyfer Glastir yn 2012 a chael taliad trwy fy nghytundeb pontio Tir Cynnal neu Tir Gofal?**	Cewch. Cyn belled â bod gennych hawl i ymuno â Glastir a'ch bod wedi dewis opsiynau sy'n ychwanegol i'r rheini yn eich cytundeb pontio TG neu TC, cewch daliad Glastir a thaliad pontio TC neu TG. Bydd gofyn i'r Comisiwn Ewropeaidd gymeradwyo hyn serch hynny.
11.12	**Bydd fy nghytundeb Tir Cynnal 10 mlynedd yn gorffen yn 2016 (neu ar ôl diwedd 2013), pam cefais gynnig cytundeb fyddai'n dod i ben yn 2013?**	Gyda dyfodiad Glastir, fel rhan o'r trefniadau pontio, cawsoch gyfle i ddewis derbyn y cynnig i estyn eich cytundeb Tir Cynnal a fyddai wedyn yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 2013. Os na wnaethoch chi fanteisio ar y cyfle hwn, fe fyddech wedi cael gwybod yn ffurfiol yn y llythyr cynnig bod eich cytundeb Tir Cynnal presennol yn dod i ben yn unol â pharagraff 2 Telerau ac Amodau Tir Cynnal. Bydd eich cytundeb Tir Cynnal felly yn dod i ben ar bumed pen-blwydd eich cytundeb presennol.

11.13	**Dewisais gytundeb Pontio Tir Cynnal/Tir Gofal sy'n dod i ben ar 31 Rhagfyr 2013; ydy hynny'n fy rhwystro rhag ymuno â Glastir?**	Nac ydy. Cewch wneud cais i ymuno â Glastir o hyd ond i gael ymuno, rhaid ichi ddewis opsiynau sy'n ychwanegol i'ch cytundeb Pontio Tir Cynnal / Tir Gofal. Mae cael ymuno â chynllun pontio Tir Cynnal / Tir Gofal a Glastir yn amodol ar gymeradwyaeth y Comisiwn Ewropeaidd.
11.14	**Dw i ddim yn gwybod pryd mae dyddiad fy nghymal terfynu.**	Fe welwch ddyddiad y cymal terfynu yn llythyr cynnig Tir Cynnal i chi. Bydd staff y swyddfa'n gallu gweld dyddiad y cymal terfynu ar y Cytundeb Tir Cynnal, o dan dab Manylion y Cytundeb.
11.15	**Ni wnes i dderbyn y cynnig i ymuno â'r cynllun pontio Tir Cynnal. A ga' i fy nhalu ar ôl dyddiad y cymal terfynu?**	Na chewch. Os gwnaethoch chi wrthod neu os na wnaethoch chi ymateb i'r cynnig i ymuno â'r cynllun pontio Tir Cynnal, ni chewch daliad ar ôl y cyfnod o bum mlynedd os na wnaethoch chi ymuno â Glastir.
11.16	**Dywedodd y llythyr bod rhai o'r cymalau yn Rheolau'r Cynllun sy'n amgaeedig yn wahanol i'r rheini yn nhelerau ac amodau cyfredol eich cynllun Tir Cynnal - beth yw'r gwahaniaethau?**	• Rhaid darllen holl reolau'r cynlluniau. • Mae'n bwysig nodi bod cynllun pontio Tir Cynnal yn cynnwys yr un amodau a thaliadau rheoli tir â'r cynllun Tir Cynnal presennol. • Bydd yr ymrwymiadau o dan Gynllun Pontio Tir Cynnal yn dechrau ar 01-01-2010 ac yn gorffen 31-12-2013. • Bydd yr hawl i hawlio ddwywaith ar yr un tir yn cael ei ddiddymu'n raddol erbyn diwedd 2013. Gallai hynny effeithio ar y cynllun pontio cyn hynny. Ar gyfer y rheini sydd ag IACS 2005 neu IACS 2006 fel y 'Cais Cysylltiedig' ar eu cytundeb TC (i'w weld ar dab Manylion y Cytundeb), y cymalau ychwanegol yw:

		• rhaid i'r rheini sy'n cael eu talu gydymffurfio â gofynion trawsgydymffurfio. • Trosglwyddo/gwerthu tir (tudalen 6 y cytundeb)
11.17	**Os na wna' i ddewis cytundeb pontio, pryd ca' i'r taliad Tir Cynnal olaf?**	Bydd hyn yn dibynnu ar ddyddiad eich cymal terfynu pum mlynedd. Ni fydd rhagor o gytundebau TG neu TC (heblaw am eithriadau prin iawn) ar ôl 13/12/2013.
11.18	**Pryd bydda' i'n debygol o gael fy nhaliad cynta' o dan Glastir?**	Byddwch yn hawlio'ch taliad ar eich SAF 2012. Rydym yn gobeithio talu'r taliad cyntaf ddiwedd yr haf, cyn belled â bod pob hawliad wedi'i wirio, gan gynnwys ei groeswirio a'i archwilio'n weinyddol. Caiff y rhandaliad olaf ei dalu erbyn diwedd mis Rhagfyr 2012, eto cyn belled â bod yr archwiliadau'n llwyddiannus.
11.19	**A fydd y trefniadau pontio'n effeithio ar fy nghytundeb OFS?**	Na fyddant.
11.20	**Derbyniais y cynnig i ymuno â chynllun pontio Tir Cynnal. A oes yn rhaid imi nawr ymuno â Glastir?**	Nac oes. Mater o ddewis yw ymuno â Glastir.
11.21	**Derbyniais y cynnig i ymuno â chynllun pontio Tir Cynnal. A ga' i ychwanegu tir newydd at y cynllun ar ddyddiad gwreiddiol y cymal terfynu 5 mlynedd?**	Na chewch. Bydd yr ymrwymiad yn para o 01-01-2010 tan 31-12-2013 a bydd yn seiliedig ar y tir oedd yn eich cytundeb Tir Cynnal gwreiddiol.
11.22	**Derbyniais y cynnig i ymuno â chynllun pontio Tir Cynnal. A ga' i werthu tir ar**	Na chewch. Bydd yr ymrwymiad yn para o 01-01-2010 tan 31-12-2013 a bydd yn seiliedig ar y tir oedd yn eich

	ddyddiad y cymal terfynu 5 mlynedd gwreiddiol?	cytundeb Tir Cynnal gwreiddiol.
11.23	**Dywedodd llythyr y cynnig pontio "... Fodd bynnag, os oes ffermwr arall yn hawlio ar unrhyw dir sy'n rhan o'ch cytundeb, a bod y Comisiwn Ewropeaidd yn rhoi cosb ariannol am hynny, efallai y bydd yn rhaid inni adolygu sefyllfa'r tir hwnnw ar ddyddiad cynharach." A gaiff y ffermwr ei gosbi'n ariannol?**	Na chaiff. Ni chaiff y gosb ariannol ei rhoi ar y ffermwr. Llywodraeth y Cynulliad fydd yn cael ei chosbi'n ariannol ond rydym yn rhybuddio ffermwyr y caiff y tir ei gymryd o'u cytundeb yn y dyfodol os gwelir bod angen hynny.
11.24	**Pam cafodd nifer o lythyrau eu hanfon ynghylch y trefniadau pontio?**	Rydym wedi derbyn nifer o ymholiadau ynghylch yr arfer bod mwy nag un ffermwr yn hawlio ar yr un tir ac effaith bosibl hynny ar yr ymrwymiad i drefniadau pontio Tir Cynnal. Cafodd y dyddiad olaf ar gyfer ymateb i lythyron cynnig cynllun pontio Tir Cynnal ei estyn felly i 30 Tachwedd 2009 er mwyn rhoi mwy o amser i'r ffermwyr oedd â thir â mwy nag un yn hawlio arno.
11.25	**Ble alla' i gael mwy o wybodaeth ynghylch hawlio dwywaith ar yr un tir?**	Mae erthyglau wedi'u cyhoeddi yn Gwlad. At hynny, mae pob ffermwr wedi cael llythyr i esbonio'r broblem o gael mwy nag un ffermwr yn hawlio ar yr un tir.
11.26	**Beth os newidiais fy meddwl ond fy mod eisoes wedi cyflwyno'r ffurflen dderbyn?**	Dylech fod wedi ysgrifennu at eich swyddfa ranbarthol leol i ddweud eich bod wedi newid eich meddwl. Nid oes modd derbyn rhagor o newidiadau nawr.
11.27	**Mae gennyf gytundeb Tir Cynnal, ond rwy'n aros am gael ymuno â Tir Gofal. Sut mae**	Nid yw'n cael unrhyw effaith. Mae cyfnod ymgeisio Tir Gofal wedi dod i ben. **Ar gyfer ceisiadau sydd wrthi'n cael eu**

	trefniadau pontio Tir Cynnal yn effeithio ar fy hawl i ymuno â Tir Gofal?	**prosesu**, nid yw derbyn na gwrthod y cynnig i ymuno â chynllun pontio TC yn effeithio ar yr hawl i ymuno â TG. Os na fydd y ffermwyr hyn, am ryw reswm, yn arwyddo cytundeb TG, a heb ymateb i'r cynnig o gytundeb pontio TC, daw eu cytundeb TC i ben ar y dyddiad terfynu 5 mlynedd.
11.28	**Ni chefais lythyr am yr estyniad.**	Ni wnaethom ysgrifennu at ffermwyr â chytundebau TG oedd yn cael eu pen-blwyddi ym mis Medi, Hydref, Tachwedd a Rhagfyr. Gofalwyd am y cwsmeriaid hyn ar wahân.
11.29	**Dywedodd y llythyr: Os gwelir wrth ddilysu'r cais, nad oes gennych reolaeth lwyr ar y tir fel ag a ddisgrifir yn yr erthygl amgaeedig, bydd angen inni edrych eto a ydych yn gymwys am y cynllun. Gallai hynny olygu dod â'ch ymrwymiad i ben ac adennill arian a dalwyd i chi. Sut bydd hynny'n effeithio arna' i?**	Dim ond ar y ddau ffermwr sy'n hawlio ar yr un tir y bydd hyn yn effeithio, a bod un o'r ffermwyr hynny am roi'r tir o dan Glastir yn 2012. Bydd gofyn inni gael gwybod pwy sydd â rheolaeth lwyr ar y tir a dim ond y ffermwr hwnnw fydd yn gymwys. Os gwelwn nad oes gennych reolaeth lwyr ar y tir, efallai y bydd yn rhaid inni ddod â'ch cytundeb i ben ac adennill unrhyw arian fydd wedi'i dalu i chi.
11.30	**Mae gan Gwsmer A gytundeb Tir Cynnal a chytundeb OFS2 ar ei dir. Mae gan Gwsmer B gytundeb Tir Cynnal ac mae'n hawlio SFS ar yr un tir.** **Fodd bynnag, mae Cwsmer A wedi rhoi tir Cwsmer B o dan ei gytundeb OFS2, felly hawliwyd TC, SPS ac OFS ar dir cwsmer B gan ddau gwsmer gwahanol.** **Gwnaeth y ddau dderbyn y cynnig i ymuno â'r cynllun pontio.**	Gellir parhau i hawlio ar y cytundeb Tir Cynnal a gall cwsmer A barhau i hawlio'r OFS2 yr un pryd tan 2013. Fodd bynnag, ni fydd hyn yn bosibl o safbwynt yr OFCS a fydd yn cael ei gyflwyno yn 2010, nac o safbwynt Glastir o 2012. O dan y cynlluniau hyn, y ffermwr fydd yr unig hawliwr ar y tir a bydd ganddo reolaeth lwyr ar y tir, a hynny am hyd y cytundeb. Mae ei ddileu fesul cam fel hyn yn helpu'r diwydiant i gysoni arferion gwaith a chytundebau tenant / landlord â gofynion yr UE. Efallai y bydd yn rhaid iddo gael ei roi ar waith yn gynt os bydd yr CE yn penderfynu hynny.

	Os ydy'r cytundeb TC yn rhedeg o 01 Ionawr 2010 tan 31 Rhagfyr 2013, a fydd y ffaith bod gan gwsmer A gytundeb OFS2 ar y tir ar yr un pryd tan fis Mai 2013 yn bodloni amod TC ynghylch hawlio ar dir ddwywaith?	
11.31	**A ga' i gontract Elfen wedi'i Thargedu yn ogystal â chytundeb TG/TC estynedig?**	Ni fydd hawl gan gwsmeriaid TG/TC gael contract yr Elfen wedi'i Thargedu yr un pryd â chytundeb TG neu TC. Gallant wneud cais ymlaen llaw i ymuno â'r Elfen wedi'i Thargedu os yw'n dechrau ar ôl i'w cytundeb TG/TC ddod i ben. Er enghraifft, os oes ganddynt gytundeb pontio sy'n dod i ben ar 31 Rhagfyr 2013, gallent wneud cais am gontract yr Elfen wedi'i Thargedu sy'n dechrau ar 1 Ionawr 2014.

12 MONITRO GLASTIR, TORRI'R RHEOLAU A CHOSBAU		
12.1	**Sut byddwch chi'n monitro'r cynllun?**	Bydd ffermydd yn cael eu harchwilio gan ddefnyddio'r trefniadau dewis ac archwilio sydd eisoe wedi ennill eu plwyf.
12.2	**Pwy fydd yn plismona'r cynllun?**	Bydd Arolygiaeth Wledig Cymru yn archwilio ffermydd gan ddilyn yr un drefn â'r archwiliadau amaeth-amgylcheddol. Bydd yr UE am archwilio casgliad o ffermydd hefyd ar brydiau.
12.3	**Os gwelir yn ystod archwiliad Glastir bod rheol trawsgydymffurfio wedi'i thorri, a fyddai'n effeithio ar yr SPS?**	Byddai. Os gwelir bod safonau trawsgydymffurfio wedi'u torri yn ystod archwiliad Glastir, byd hynny'n effeithio ar yr SPS. Os bydd ffermwr wedi torri amodau'r Cynllun Glastir, ni fydd hynny'n effeithio ar yr SPS.

13	MATERION AMRYWIOL	
13.1	**A fyddwch yn cefnogi mynediad ar y ffermydd?**	O dan y cynllun wedi'i dargedu, mae'n debygol y bydd grantiau cyfalaf ar gael (o fodloni rhai amodau) i gefnogi cyfleoedd i ganiatáu mynediad addysgol ar ffermydd. Byddai'r grant yn helpu i ddarparu toiledau, llefydd golchi dwylo, meysydd parcio ac mewn rhai amgylchiadau, dosbarthiadau.
13.2	**A fyddai'n dderbyniol cadw trac motocross ar fferm sydd â chontract Glastir?**	Nid oes gwrthdaro rhwng Glastir a mentrau arallgyfeirio. Ni fyddai'r tir lle cynhelir chwaraeon moduro arno yn gymwys am daliad Glastir, ond ni fyddai'r ffaith bod y chwaraeon yn cael eu cynnal ar y fferm yn golygu na allai weddill y fferm ddod o dan Glastir. Caiff pob safle ei asesu yn ôl ei rinweddau. Rhaid cadw'r holl dir sy'n dod o dan Glastir yn unol â safonau trawsgydymffurfio.
13.3	**Sut gwnewch chi benderfynu ar linell mesur ar gyfer monitro a mesur llwyddiant Glastir?**	Mae'r gwaith sy'n cael ei wneud i fesur llwyddiant Tir Gofal yn helpu gyda'r gwaith o bennu llinellau mesur ar gyfer Glastir. Mae'n un o ofynion Cynllun Datblygu Gwledig 2007-213 i fesur llwyddiant rhaglen.